**Cyfarwyddiaeth Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Dyddiad** | 4 Chwefror 2025 |
| **Amser** | 2p.m. hyd 4p.m. |
| **Lleoliad** | Timau Microsoft |

### Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) – Cadeirydd | Rheolwr Grŵp - Strategaeth, Perfformiad a Chymorth |
| Ms E Giles (EG) – Ysgrifennydd | Uwch Swyddog Gwasanaethau Disgyblion |
| Ms R Garner (RG) | Arweinydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI (Nam Meddygol ac Echddygol Cymhleth) |
| Ms B Davies (BD) | Rheolwr y Tîm Gofal Plant |
| Y Cyng M Jones (Y Cyng MJ) | Aelod y Cabinet dros Addysg |

### Cynrychiolwyr Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol Rheoledig)

| | |
|---|---|
| Ms D Davies (DD) | Pennaeth Gweithredol, Ysgol y Ferch o'r Sgêr |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |
| Mr R Pawar (RP) | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Bryntirion |

### Cynrychiolwyr Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

| | |
|---|---|
| Mr A Howells (AH) | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath |
| Mrs C Beveridge (CBe) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert |

### Cynrychiolydd yr Esgobaeth Gatholig

| | |
|---|---|
| Ms A Robertson (AR) | Cyfarwyddwr Ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd |

### Cynrychiolydd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Ms C Werret (CW) | Arweinydd Gweithredol Addysg yr Esgobaeth dros esgobaeth Llandaf |

### Cynrychiolwyr Rhieni Lywodraethwyr

| | |
|---|---|
| Ms C Bloomfield (CB) | Rhiant lywodraethwr, Coleg Cymunedol Y Dderwen |
| Ms R Owens (RO) | Rhiant lywodraethwr, Ysgol Heronsbridge |

### Cynrychiolwyr y Gymuned

| | |
|---|---|
| Mr S Sweeney (SS) | Llywodraethwr Cymunedol, Ysgol Gynradd Tremain |

### Aelodau Ychwanegol

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Mrs M Treharne (MT) | Cyd-drefnydd Ymgysylltu Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol, Pen-y-bont ar Ogwr |

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth AR, CC, Y Cyng MJ, KJ, CBe, BD ac AH.

Absennol heb ymddiheuriad – CW, CB, RO ac SS.

Nododd EG nad oedd y nifer oedd yn bresennol yn ddigon i wneud cworwm. Cadarnhaodd RD gan mai pwrpas y cyfarfod hwn oedd rhannu gwybodaeth ac nad oedd penderfyniadau i gael eu gwneud ar hyn o bryd, y byddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen gyda'r rhai oedd yn bresennol gan fod holl aelodau'r panel wedi derbyn y wybodaeth oedd i gael ei thrafod. Angen cysylltu â'r aelodau o'r panel oedd yn absennol i gadarnhau eu bod wedi derbyn yr holl bapurau, a'u bod yn fodlon ar y cynnwys.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024 a'r materion oedd yn codi

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

## 3. Aelodaeth o'r fforwm am flwyddyn ysgol 2024-2025

Cyfeiriodd EG at **Atodiad B**, sef dogfen oedd yn rhoi manylion y fforwm diwygiedig am 2024-2025, a thynnodd sylw at y canlynol:

- Roedd Mrs C Beveridge, pennaeth Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert, hwedi cael ei gwahodd i ymuno â'r fforwm fel cynrychiolydd ysgol ar ran yr ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir.

Atgoffodd EG aelodau'r fforwm am y angen i benodi dirprwy gadeirydd. Dywedodd RD y dylid ailedrych ar hyn yng nghyfarfod tymor yr haf.

## 4. Rhaglen waith 2024-2025

Cadarnhaodd EG fod y rhaglen waith ddrafft wedi cael ei chymeradwyo yn y cyfarfod blaenorol a rhoddodd y diweddariadau canlynol:

**Adran 4.1** – Tynnodd EG sylw at y ffaith fod adroddiad blynyddol y fforwm, oedd ar yr agenda i gael ei drafod, wedi cael ei anfon i bob aelod i'w ystyried ar 28 Hydref 2024, gyda chais i unrhyw sylwadau neu gwestiynau gael eu hanfon yn ôl erbyn 18 Tachwedd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. Dyddiad cau Llywodraeth Cymru ar gyfer derbyn yr adroddiad terfynol oedd 30 Tachwedd 2024. Cytunwyd ar yr adroddiad, a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru ar 26 Tachwedd 2024. Cyhoeddwyd yr adroddiad, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar wefan CBSP yn unol â'r gofynion. (**Atodiad C**)

Cwestiynodd RD werth darparu'r adroddiad hwn a gofynnodd a oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi adborth. Cadarnhaodd EG fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod derbyn yr adroddiad ond na chafwyd adborth.

**Adran 4.2** – Atgoffodd EG yr aelodau am y gofyniad i bob awdurdod derbyn ymgynghori ar ei drefniadau ar gyfer y flwyddyn benderfynu rhwng 1 Medi ac 1 Mawrth, gyda'r trefniadau'n cael eu penderfynu erbyn 15 Ebrill. Mae'r flwyddyn benderfynu yn dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y mae'r trefniadau'n berthnasol iddi mewn gwirionedd (2026-2027).

Cadarnhaodd EG fod y trefniadau derbyn ar gyfer yr awdurdod lleol ar y trywydd iawn o ran cydymffurfio â'r gofynion. Dosbarthwyd Polisi Derbyn arfaethedig yr awdurdod lleol ar gyfer 2026-2027 i glercod yr holl gyrff llywodraethu, awdurdodau lleol cyfagos ac esgobaethau'r Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru ar 23 Hydref 2024 gyda 22 Tachwedd 2024 yn ddyddiad cau ar gyfer ymateb. Cadarnhaodd EG fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel arfer yn ymgynghori am o leiaf un mis.

Erbyn y dyddiad cau, ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad.

Dywedodd EG fod y polisi arfaethedig wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer cyfarfod mis Chwefror 2025.

Eglurodd EG i'r fforwm, ar gyfer yr ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir (VA), fod angen ymgynghori â'r awdurdod lleol cynhaliol, pob awdurdod lleol y mae ei ardal yn ffinio â'r ardal ddaearyddol berthnasol a chyrff llywodraethu'r holl ysgolion cynradd eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rhaid i'r ysgol uwchradd VA ymgynghori â'r holl ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac nid yr ysgolion uwchradd/VA eraill yn unig ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yna mae angen penderfynu ar y trefniadau hyn erbyn 15 Ebrill, a'r gofyniad i hysbysu'r holl gyrff yr ymgynghorwyd â hwy, o fewn 14 diwrnod, i’w hysbysu bod y trefniadau wedi cael eu penderfynu.

Mae EG wedi anfon nodyn i atgoffa’r ysgolion gwirfoddol a gynhelir am y gofynion hyn ac roedd yn disgwyl am ymatebion ynghylch statws eu trefniadau.

Yn absenoldeb AR, rhoddodd EG ddiweddariad i'r aelodau ynghylch gwybodaeth a ddarparwyd ar ran Cyfarwyddwr Ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd:

- Mae’r Gwasanaeth Addysg Catholig wedi cynhyrchu Polisi Derbyniadau enghreifftiol ar gyfer ysgolion Catholig Cymru, sy'n cynnwys mwy o fanylion, fel yr adlewyrchir yn y Cod Derbyniadau, nag sydd gan y rhan fwyaf o'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn eu polisïau ar hyn o bryd. Caiff y polisi enghreifftiol ei rannu gyda'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir dros yr ychydig wythnosau nesaf gyda'r bwriad iddynt ymgynghori ar ei fabwysiadu yn ystod y cyfnod ymgynghori arferol yn ddiweddarach eleni.

**Adran 4.3 –** Dywedodd EG fod yr adroddiad blynyddol a gyflwynwyd, a'r adroddiad derbyniadau oedd ynghlwm **(atodiad D**) yn rhoi ystod o wybodaeth gysylltiedig â derbyniadau ac yn gyfrwng i gynorthwyo'r fforwm i gyflawni ei gyfrifoldebau, sy'n cynnwys monitro cydymffurfiaeth â'r trefniadau ar gyfer derbyniadau i ysgolion fel y manylir yn y polisi.

Tynnodd EG sylw at y ffaith mai ag ysgolion y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn iddynt yn unig yr oedd y wybodaeth yn yr adroddiad yn ymwneud. Byddai angen gweithgaredd pellach yn y dyfodol i gaffael ac integreiddio gwybodaeth gan yr ysgolion

gwirfoddol a gynorthwyir ond dylai hyn fod yn dasg haws wrth gyflwyno’r trefniadau derbyn cydlynol.

Tynnodd EG sylw at y pwyntiau canlynol:

- O ran newidiadau yn nifer y lleoedd Meithrin Rhan-amser oedd ar gael ar gyfer mis Ionawr ac Ebrill 2024, eglurodd EG fod amrywiad o flwyddyn i flwyddyn yn anochel o ystyried y ffactorau sy'n pennu nifer lleoedd o'r fath.

- Mae'r data a ddarparwyd ar gyfer manylion cylchoedd derbyn oed Dosbarth Derbyn, Iau a Blwyddyn 7 yn rhoi cipolwg ar geisiadau amserol ac unrhyw geisiadau hwyr a dderbyniwyd ar gyfer Diwrnod y Cynnig. Mae goblygiadau i geisiadau sy'n cael eu derbyn yn hwyr, sydd ond canran fechan, gan fod hyn yn cynyddu nifer y ceisiadau a dderbynnir ond nid nifer y lleoedd sydd ar gael. Gall hyn arwain at gynnydd mewn gwrthodiadau wrth i ysgolion gyrraedd eu nifer derbyn cyhoeddedig (PAN) a chynnydd yn yr apeliadau sy'n dod i mewn ar ôl y dyddiad cau ar gyfer apeliadau'r cylch derbyn. Gall ceisiadau hwyr fod oherwydd teuluoedd yn symud i'r ardal, neu ddod oddi wrth y rhai sydd yn syml wedi colli'r dyddiad cau. Sicrhaodd EG y fforwm fod yr holl ddyddiadau derbyn yn cael eu hysbysebu'n glir gan yr awdurdod lleol a'u bod hefyd wedi eu cynnwys yng nghyfathrebiadau ysgolion â rhieni/gofalwyr. Mae Gwasanaethau Disgyblion hefyd wedi cysylltu â'r ysgolion, cyn y dyddiad cau, i’w hysbysu am blant sydd ar y gofrestr ond sydd eto i wneud cais.

- Mae cyflwyno ceisiadau drwy'r cyfleuster ar-lein yn parhau'n uchel. Anogir a chynorthwyir rhieni i gwblhau ceisiadau ar-lein, er bod fersiynau copi caled ar gael i'r rheiny sydd eu hangen.

  Ar ddiwedd y cylchoedd derbyn ar gyfer 2024, derbyniodd yr awdurdod lleol y ceisiadau copi caled canlynol ar gyfer mis Medi 2024 (fel canran):

  Blwyddyn 7 - 4.8%
  Blwyddyn Iau 3 – 3.7%
  Dosbarth Derbyn – 3.9%
  Meithrinfa Lawn Amser – 3.9%

- Er bod goblygiadau posibl cofnodi un dewis ysgol yn unig yn cael eu hamlinellu yn y ffurflenni cais, nid yw canran ystyfnig o rieni/gofalwyr yn cofnodi'r nifer fwyaf o ddewisiadau ysgol.

- Mae dewis rhieni yn galluogi rhiant/gofalwr i fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol, ond os nad yr ysgol yn y dalgylch yw’r un a ffefrir, na'r ysgol addas agosaf o ran cyfrwng Cymraeg, mae goblygiadau i'r plant hynny os ceir gor-danysgrifio.

- O ran ceisiadau lle roedd ysgol y dewis cyntaf yn ysgol gyfrwng Cymraeg, nid oedd yr ail ddewis, lle cafodd ei gofnodi, yn ysgol gyfrwng Cymraeg.

- Roedd y **Ceisiadau Derbyn (ar gyfer Diwrnod Cynnig Medi 2024)** ar gyfer cyfrwng Cymraeg fel y dewis cyntaf (98) ond yr ail ddewis ar gyfer cyfrwng Saesneg (48) yn 48.9% a'r gyfran lle nad oedd ysgol wedi'i chofnodi fel ail ddewis (11) yn 11.3%. **Ni chofnododd dros 50% ysgol gyfrwng Cymraeg fel ail ddewis.**

- Roedd **Ceisiadau Meithrinfa Llawn Amser (ar gyfer Diwrnod Cynnig Medi 2024)** ar gyfer cyfrwng Cymraeg fel y dewis cyntaf (142) ond yr ail ddewis ar gyfer cyfrwng Saesneg (76) yn 53.5% ac nid oedd unrhyw geisiadau lle na chofnodwyd yr un ysgol fel ail ddewis**. Ni chofnododd dros 50% ysgol gyfrwng Cymraeg fel ail ddewis.**

- Roedd **Ceisiadau Meithrinfa Rhan-amser ym mis Ionawr ac Ebrill (Diwrnod Cynnig ar gyfer mis Ionawr ac Ebrill 2024)** ar gyfer cyfrwng Cymraeg fel y dewis cyntaf (44) ond yr ail ddewis ar gyfer cyfrwng Saesneg (20) yn 45% a'r gyfran lle nad oedd ysgol wedi'i chofnodi fel ail ddewis (11) yn 25%. **Ni chofnododd dros 50% ysgol gyfrwng Cymraeg fel ail ddewis.**

- Cyfeiriodd EG at y ffaith fod yr awdurdod lleol yn cael ei herio'n rheolaidd ynghylch pam yr oedd rhieni/gofalwyr a wnaeth gais am ysgol gyfrwng Cymraeg lle roedd gordanysgrifio a lle wedi cael ei wrthod, wedyn yn dewis i'w plant fynd i ysgol gyfrwng Saesneg. Tynnodd EG sylw at y ffaith mai dewis y rhieni sy'n berthnasol, a bod rhieni/gofalwyr yn aml yn gofyn am brosesu'r ail ddewis a fynegwyd, sef ysgol gyfrwng Saesneg, yn hytrach na rhoi ystyriaeth i unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill lle roedd lleoedd ar gael. Mae hyn yn aml oherwydd lleoliad a rhwyddineb mynediad.

- Cadarnhaodd EG nad oedd gordanysgrifio ar gyfer Blwyddyn 7 ar y Diwrnod Cynnig (Medi 2024).

- Mae canran fechan o geisiadau Blwyddyn 7 yn parhau i fod lle mae'r cais am symud o Flwyddyn 6 mewn ysgol gyfrwng Cymraeg i Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd gyfrwng Saesneg. **Lle roedd Ceisiadau Blwyddyn 7 (ar gyfer Diwrnod Cynnig) o Flwyddyn 6 mewn ysgol gyfrwng Cymraeg (116), gwnaed 3 chais i ysgol gyfrwng Saesneg fel y dewis cyntaf – 2.5%**

- Gall ceisiadau a dderbynnir gan y rheiny sy'n byw y tu allan i'r sir gael effaith ar nifer y lleoedd sydd ar gael:

  **Blwyddyn 7**
  Cyfanswm y ceisiadau am ysgolion cyfrwng Saesneg oedd 1.7% o'r lleoedd oedd ar gael.
  Cyfanswm y ceisiadau am ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd 1.8% o'r lleoedd oedd ar gael.

  **Dosbarth Derbyn**
  Cyfanswm y ceisiadau am ysgolion cyfrwng Saesneg oedd 0.9% o'r lleoedd oedd ar gael.

Cyfanswm y ceisiadau am ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd 3.1% o'r lleoedd oedd ar gael.

**Meithrinfa Lawn Amser**
Cyfanswm y ceisiadau am ysgolion cyfrwng Saesneg oedd 0.7% o'r lleoedd oedd ar gael.
Cyfanswm y ceisiadau am ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd 4.4% o'r lleoedd oedd ar gael.

- Roedd nifer yr apeliadau derbyn wedi cynyddu dros y pum mlynedd flaenorol, ar gyfer cylchoedd derbyn a derbyniadau yn ystod y flwyddyn, oherwydd cynnydd yn nifer yr ysgolion â gordanysgrifiadau. Ar gyfer cylch derbyn mis Medi 2024 ni dderbyniodd yr awdurdod lleol ond tair apêl statudol, oedd yn ymwneud â lleoedd mewn Dosbarth Derbyn. Roedd dwy o'r rhain yn llwyddiannus a chanslwyd un wrth i le ddod ar gael.

- Hysbysodd EG yr aelodau eu bod yn gweithio ar adroddiad derbyniadau manwl, pellach ar hyn o bryd, fydd yn cynnwys data mewn perthynas â'r Panel Mynediad Teg Prif Ffrwd ac y caiff hwn ei rannu gyda'r fforwm derbyn pan fydd ar gael.

Gofynnodd RP am eglurder ynghylch y trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd a nododd y duedd gadarnhaol yn y gyfradd drosglwyddo fod mwyafrif y disgyblion yn aros mewn addysg gyfrwng Cymraeg.

Anogodd RD yr aelodau i rannu'r wybodaeth a ddarparwyd o fewn Ffederasiwn y Penaethiaid Cynradd a Chymdeithas Penaethiaid Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr (BASH).

## 5. Trefniadau Derbyn Cydlynol (Atodiad E)

Hysbysodd EG y fforwm fod Trefniadau Derbyn Cydlynol arfaethedig yr awdurdod lleol wedi cael eu dosbarthu ar gyfer eu hystyried i glercod yr holl gyrff llywodraethu, yr esgobaethau Catholig a'r Eglwys yng Nghymru ar 28 Hydref 2024 gyda'r dyddiad cau ar gyfer ymateb yn 15 Tachwedd 2024.

Cadarnhaodd EG fod un ymateb i'r ymgynghoriad wedi dod i law. Yr ymateb oedd cais ynghylch pwynt bach o eglurder mewn perthynas ag adran 3 o'r Trefniadau Derbyn Ysgolion Cydlynol 2027-2028. Gwnaed newid i'r gystrawen er mwyn sicrhau cywirdeb gramadegol.

Cadarnhaodd EG fod y rhain wedi cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2024 a'u bod wedi cael eu mabwysiadu erbyn y dyddiad cau gofynnol ar 1 Ionawr 2025 a bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am y trefniadau hyn ar 8 Ionawr 2025, oedd yn gynt na'r dyddiad cau o 28 Chwefror 2025.

Tynnodd RD sylw at y cymhlethdod a'r gefnogaeth yr oedd ei hangen wrth weithredu'r trefniadau hyn gyda'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac at yr angen am eglurder wrth hysbysu rhieni am y newidiadau.

## 6. Diweddariad Grŵp Derbyniadau ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru)

Dywedodd EG wrth yr aelodau am yr eitemau trafod canlynol yng nghyfarfod Grŵp Derbyniadau ADEW ar 31 Ionawr 2025:

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

- Lansiwyd ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar 8 Tachwedd 2024 ac mae'n cau ddydd Gwener 14 Chwefror 2025. Nodwyd bod gwall yng nghwestiwn 12, lle dylai gyfeirio at Adran 9 ac nid Adran 10.

- Adolygiad o'r Cod Derbyn. Mae LlC wedi dechrau gweithio ar hyn, gyda fersiwn cyn-ymgynghori bosibl i'w rhannu â grŵp derbyniadau ADEW. Y nod yw i'r ymgynghoriad ddigwydd eleni. Gofynnodd CBS Caerffili a allent newid dyddiadau 'Diwrnod y Cynnig' i ganiatáu mwy o amser i ysgolion gynllunio ar gyfer y dyfodol. Cadarnhaodd LlC, gan fod y dyddiadau hyn mewn cyfraith sylfaenol a'i fod yn ddiwrnod cynnig **cenedlaethol**, y byddai hyn yn annhebygol iawn.

- Diolchodd LlC i'r rhai oedd wedi cyflwyno eu hadroddiad derbyniadau blynyddol yn nhymor yr hydref a'r rhai oedd wedi cadarnhau eu trefniadau derbyn cydlynol.

Gofynnodd NPT am fanylion cyswllt ar gyfer y rhai o fewn awdurdodau lleol sy'n delio â Dyddiadau Tymhorau. Mae Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ymgynghoriad ynghylch c.ysoni dyddiadau tymhorau gan fod anghysondebau yn y rhain ar draws Cymru ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon y bydd dyddiad cau Blwyddyn 7 ar gyfer y cylchoedd derbyn cydlynol 2027-2028, sef 31 Hydref 2026, yn digwydd yn ystod hanner tymor.

Hysbysodd RD yr aelodau fod yna gysondeb gynt, ond pan na chafwyd cysondeb union, fod y Gweinidog wedi caniatáu i'r Gogledd a'r De yn bennaf fod ychydig yn wahanol i'w gilydd. Cadarnhaodd RD y ceir ymgynghoriad caeedig, pan fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgynghori â thua 10% o ysgolion ledled Cymru dros gyfnod o dri mis.

Gofynnodd Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am wybodaeth ynghylch symudiadau rheoledig, a byddant yn cysylltu ag MT i gael rhagor o wybodaeth.

## 7. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd dim eitem.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.41p.m.

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

3 Mehefin 2025 2-4p.m. drwy gyfrwng Timau Microsoft